# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones




Rhifyn 37 - Haf 2017

# GOLYGYDDOL

Braf yw gallu cyflwyno rhifyn arall amrywiol o Llygad Barcud, yn cynnwys adroddiadau am rai o'r teithiau difyr ar ein rhaglen dros yr hanner blwyddyn a fu. Ceir hanes hefyd ymgyrch aelodau Cymdeithas Ted i dynnu sylw'r awdurdodau at y tarfu fu ar nythfa Crehyrod glas ym Mhwllheli gan weithwyr oedd wedi dechrau torri coed yn llawer rhy agos pan oedd cywion yn y nythod. Wrth lwc cafwyd yr ymateb cywir gan Cyfoeth Naturiol Cymru a rhoddwyd stop ar y gwaith.

Ar Fai y 6ed cynhaliwyd gweithdy WiciNatur ym Mhlas Tan y Bwlch. Roedd Cymdeithas Ted eisoes wedi gwneud cyfraniad ariannol tuag at gyflwyno Rhestr o Enwau Cymraeg ar Adar y Byd at wefan Llên Natur. Erbyn hyn datblygodd partneriaeth rhwng Llên Natur, Wicipedia Cymraeg a Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor fel y gellir datblygu'r rhestr i gynnwys adroddiad, llun a chân pob aderyn, dros 9,000 ohonynt. Dyna ichi be ydy adnodd.

**Cynnwys:**


J3CL *Elfyn Lewis* ........ 3
Birds of Caernarfonshire ........ 4
Gwarchod Crehyrod Pwllheli *Gareth Jones* ........ 6
Taith Bro Dysynni *Huw Dafydd* ........ 9
Dawnsfeydd y drudwy *Ieuan Bryn* ........ 11
Y rugiar wen *Anet Thomas* ........ 14
Taith Morfa Dinlle *Twm Elias* ........ 15
Taith Afonwen *Twm Elias* ........ 17
Taith Cwm Nantcol *Huw Dafydd* ........ 21
Y Nico *EVB Jones* ........ 23
Gweithgareddau'r tymor ........ 24


**Llun y clawr**: Crehyrod gwyliadwrus (**Amanda Morris**)


**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams + Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@outlook.com)
**Trysorydd:** Huw Dafydd
**Ysgrifennydd**: Gareth Jones, Bryn Eithin, Yr Ala, Pwllheli LL53 5BN, 01758 614470
**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones (pwllheli@gmail.com)
**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk



Cynigir **10%** o ostyngiad i aelodau'r Gymdeithas yn siop **Cotswold, Betws-y-coed**


Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar-

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

# J3 CL




Roedd gan TH Parry-Williams ei **KC16** hoffus – y beic modur enwog a anfarwolwyd ganddo yn ei ysgrif yn *Y Llenor* (1922). Ond **J3CL** ydi'r gymysgedd o rifau a llythrennau sydd wedi dal sylw adarwyr Porthmadog yn fwy diweddar.

Ers rhai blynyddoedd bellach y mae **gwylan benddu** gyda'r côd unigryw hwn yn amlwg ar fodrwy sydd ar ei choes wedi bod yn ymddangos ym maes parcio Llyn Bach yn ystod misoedd olaf yr haf.


Ar ôl holi arbenigwyr, darganfuwyd bod yr aderyn hwn yn **un ar hugain oed**! Mae hyn yn dipyn o oed i aderyn sy'n peryglu ei fywyd yn ddyddiol wrth gwffio am sgraps o siop Allport's ar un o feysydd parcio prysura' Gwynedd.

Ond yr hyn sydd yn fwy rhyfeddol efallai yw bod yr wylan hon wedi ei modrwyo yn **Norwy** yn **1995** a'i bod yn dychwelyd yno bob haf i nythu.

Rhyfeddach byth efallai yw ei bod hi (neu fo) yn croesi'r môr i Wiclo yn Iwerddon fel mae'r gaeaf yn cau ei grafangau ar dref Porthmadog a Gogledd Cymru.  Ac y mae wedi bod yn dilyn yr un patrwm ers blynyddoedd.

**Elfyn Lewis**

## ADOLYGIAD




***Birds of Caernarfonshire*** gan **Rhion Pritchard**
*Cyhoeddwyd gan y Cambrian Ornithological Soc. (2017) tud. 294, pris* ***£12.00.***

Diolch yn fawr iawn Rhion am y gampwaith hon o gyfrol sy'n rhoi inni'r trosolwg manwl diweddaraf o hanes a statws gwahanol rywogaethau o adar yn yr hen Sir Gaernarfon. Mae'n ugain mlynedd ers cyhoeddi'r gyfrol adaryddol neu Avifauna ddiwethaf i'r hen sir: *The Birds of Caernarfonshire*, gan John Barnes yn 1997 ac ychydig dros ugain mlynedd ers *Birds of Caernarfonshire*, Peter Hope Jones a Peter Dare yn 1976. Cyhoeddwyd y dair gan Gymdeithas Adaryddol y Cambrian a fu mor hynod o weithgar yn y maes cofnodi adaryddol yng ngogledd orllewin Cymru ers ei sefydlu yn 1952.

Yn dilyn disgrifiadau cryno o dirwedd, hinsawdd a chynefinoedd yr hen Sir Gaernarfon (vice county, VC 49) ceir crynodebau difyr a defnyddiol o hanes adarydda a'r newidiadau ddigwyddodd yma ers y 19eg ganrif mewn amaethyddiaeth a gwarchodaeth. Mae'n hanfodol yn fy marn i i fwrw trem ar y gorffennol os am ddeall y presennol yn well.

Wedi cyflwyniad byr i'r dulliau arolygu a gwybodaeth gefndirol arall mi ddown at brif ran y gyfrol, sef y rhestr systematig o rywogaethau – bron i 400 ohonynt i gyd, o'r cyffredin i'r anghyffredin iawn, ac yn cynnwys 28 o rywogaethau egsotig fel alarch du, fflamingo mawr a cwelia pig coch fyddai wedi dianc o gasgliadau mae'n debyg.

Ar gyfer pob rhywogaeth, gyda'u henwau yn Saesneg, Lladin a Chymraeg, disgrifir eu statws, boed yn gyffredin neu'n brin, yn bridio yma neu beidio; eu cynefin; symudiadau tymhorol; newidiadau yn eu poblogaeth a statws gwarchod (gwyrdd, melyn neu goch). Mewn ambell achos ceir gwybodaeth hanesyddol megis cyfeiriad gan Pennant at wyddau gwyrain ymysg y nifer fawr o adar laddwyd yn ystod heth fawr gaeaf 1776 a'u golchi i fyny ar draeth Cricieth. Cawn olrhain y twf ym mhoblogaeth y bwncath ers y 19$^{eg}$ ganrif a difodiant y cigydd cefngoch a rhegen yr ŷd ayyb fel adar sy'n bridio yma. Cawn fanylion hefyd am yr adar sydd dros y degawdau diweddar wedi sefydlu o'r newydd yma neu ddychwelyd ar ôl absenoldeb hir, megis y durtur dorchog, crëyr gwyn bach, telor Dartford, gwalch y pysgod a barcud.

Mewn rhai achosion cyflwynir graffiau a thablau yn dangos patrwm y newidiadau yn niferoedd adar dros y blynyddoedd. Daw y rhain o wahanol ffynonellau megis cyfrifon WeBS, BTO, RSPB, data o adroddiadau blynyddol

Cymdeithas y Cambrian, yr atlasau bridio a gaeafu ers y 1960$^{au}$ a llu o gofnodion unigol gan wirfoddolwyr brwd.

Os rhywbeth mae'r gyfrol yn pwysleisio pa mor bwysig yw cofnodi yr hyn a welwn, hyd yn oed yr adar mwyaf cyffredin, a phwysicach fyth yw eu gyrru at y rhai sy'n eu casglu ar ran y Cambrian neu'r BTO. Bydd Rhion (Cofnodwr Sirol Arfon), rhion678pritchard@gmail.com, Jim Dustow (Cofnodwr Meirion), jim.dustow@rspb.org.uk neu Kelvin (BTO), kelvin.jones@bto.org yn falch o unrhyw gofnodion.

Cofnodion, yn naturiol, boed yn rhai anffurfiol o'r hyn welwch wrth fynd am dro neu yn rhan o arolygon ffurfiol yw cig a gwaed ein gwybodaeth am hynt a helynt adar a bywyd gwyllt yn gyffredinol. Hebddynt ni fyddai cyfrolau megis *Birds of Caernarfonshire* nag atlasau dosbarthiad adaryddol y BTO yn bosib. Cofnodwch! Cofnodwch! Cofnodwch! felly a gyrrwch eich data at y cofnodwyr.

Mawr yw ein diolch i Rhion am hon, sy'n chwaer-gyfrol i *Adar Meirionnydd, Birds of Meirionnydd* a gyhoeddwyd ganddo yn 2012.

**Twm Elias**



*Mawrth 2017: Rhion Pritchard yn rhoi sgwrs am adar Affrica i ni yn y Plas*

**Rhai ffeithiau o *Birds of Caernarfonshire* am CRËYR BACH**

- Cofnod cyntaf yn y sir: Harbwr Pwllheli, Mai 21$^{ain}$, 1973;
- Dim byd wedyn tan 1987 a chofnodion bob blwyddyn o 1993 ymlaen;
- Cofnod bridio cyntaf, Ynys Welltog yn y Fenai (ond ar ochr Môn), 2002;
- Nythfeydd yn Llandygai, Bangor a Chonwy (2006);
- Erbyn hyn nythfeydd eraill ger Caernarfon ac ym Mhwllheli;
- Y nifer mwyaf a gofnodwyd efo'i gilydd yw 173, a hynny yn Nhraeth Lafan, Awst 2013.

## Y GYMDEITHAS YN GWEITHREDU I WARCHOD ADAR


*Dechrau Ionawr (Llun: Amanda Morris)*

Yn ôl ym mis Tachwedd, cawsom sgwrs ardderchog ym Mhlas Tan y Bwlch gan yr heddwas **Dewi Evans**, o'r Tîm Troseddau Cefn Gwlad; prin yr oeddem yn meddwl ar y pryd y byddai gennym reswm i gysylltu ag ef yn fuan wedi hynny!

Ym Mhwllheli, y mae crëyrfa ger Pont Solomon ar afon Rhydhir (SH 370 347). Bob blwyddyn y mae rhyw ddeg pâr o grëyrod yn nythu yma ac y mae cofnod o'r nythod yn mynd yn ôl bron i gan mlynedd. Y mae hon yn grëyrfa arbennig gan fod yr adar yn nythu mewn coed sydd ar lan yr afon, ychydig yn is na'r ffordd ac felly mae yn gymharol hawdd gweld y gweithgaredd ar, ac o gwmpas, y nythod - a hynny oddi ar y palmant gerllaw. Hon yw'r grëyrfa drefol fwyaf yng Nghymru meddan nhw ac mae trigolion y dref wedi 'mabwysiadu' y Crehyrod a'u cymryd i'w calon.


*Adeiladu nyth (Llun: Amanda Morris)*

Yn aml, fe welir pobol yn sefyll ar y palmant ac yn mwynhau y sioe adaryddol. Bu Iolo Williams yma droeon yn ffilmio ar gyfer ei raglenni teledu ac fe drefnir ymweliadau i weld yr adar gan Gymdeithas Ted Breeze ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn flynyddol.

Bydd y Crehyrod yn dechrau arddangos yn gynnar yn y flwyddyn, pan nad oes dail ar y coed ac y mae'n hawdd gweld yr adar – ac yn sicr yn hawdd eu clywed wrth gerdded ar hyd y palmant gerllaw. Mae sgrech y crëyr yn sŵn reit ddychrynllyd wrth gerdded heibio yn llwyd-dywyllwch gyda'r nôs yn y gaeaf!

Ac felly y bu hi eleni... ddechrau Ionawr,



*Paru (Llun: Amanda Morris)*

fe welwyd nifer o grëyrod yn arddangos ac yn paratoi eu nythod yn y llefydd arferol. Ond wedyn, ar y 1$^{af}$ o Chwefror gwelodd aelod o Gymdeithas Ted weithgaredd pur wahanol yn afon Rhydhir. Yr oedd nifer o weithwyr efo llifiau pŵer yn gweithio i fyny at eu canol yn y dŵr ac yr oedd clirio mawr yn amlwg ar droed. Beth am y Crehyrod?

Yn ei sgwrs ddiweddar yr oedd PC Evans wedi dweud yn glir fod unrhyw weithgaredd a oedd yn tarfu ar adar sydd yn nythu yn anghyfreithiol ac yr oedd wedi dweud fod angen rhoi gwybod iddynt am unrhyw weithred o'r fath. Anfonwyd neges felly at gyfrif **Twitter** y Tîm Trosedd Cefn Gwlad sef **@NWPRuralCrime** ac yn ôl yr addewid, cafwyd ymateb yn syth. Dywedwyd bod angen ffonio yr heddlu ar eu rhif **101** (rhif i'w ddefnyddio pan nad oes argyfwng digonol i ffonio 999) a chofnodwyd y manylion gyda'r addewid y byddid yn hysbysu'r Tîm Cefn Gwlad.

Anfonwyd neges Twitter hefyd i **Gyfoeth Naturiol Cymru** am y credid mai hwy oedd yn gyfrifol am y gwaith. Cafwyd yr ateb eu bod yn gwneud '*gwaith hanfodol o reoli coed er mwyn diogelu pobol Pwllheli'* a bod y gwaith '*wedi ei amserlennu er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y grëyrfa'*.

Pan roddwyd gwybod am y gwaith i Kelvin Jones (BTO Cymru) yr oedd yn gynddeiriog am yr amseriad ac yn pwysleisio pwysigrwydd unigryw y safle hon. Gwyddai yn iawn amdani ac yr oedd ganddo gofnodion am y grëyrfa yn mynd yn ôl bron i gan mlynedd. Rŵan yr oedd yntau "*on the case*".

I orffen yr ymgyrch o hysbysrwydd, postiwyd neges ar gyfrif **Facebook** 'North Wales bird & wildlife sightings' a chafwyd cefnogaeth gref gan lawer iawn o'r aelodau.

Yn sydyn iawn digwyddodd llawer o bethau yn dawel yn y cefndir ac yn ddisymwth, fe symudodd y gwaith ymhellach i fyny'r afon, yn ddigon pell o'r grëyrfa, gyda'r addewid na fyddent yn dychwelyd i'r cyffiniau tan ar ôl amser nythu.

Pan fydd angen gwneud gwaith hanfodol ar yr afon yn yr ardal hon i'r dyfodol, y mae'n sicr y bydd yr awdurdodau yn cofio am y Crehyrod – dyna'r addewid beth bynnag, ond fe fydd Cymdeithas Ted hefyd yn cadw llygad ar bethau!

Fel y soniwyd ar ddechrau'r erthygl, y mae y grëyrfa hon yn un boblogaidd gan drigolion y dref – un ohonynt ydi **Amanda Morris**. Pan oedd Amanda yn ddeunaw oed, a newydd ddechrau ar yrfa yn yr RAF, darganfuwyd bod ganddi dyfiant ar yr ymennydd. Yn dilyn nifer o law-driniaethau, dywedwyd wrthi nad oedd yn bosib' gwneud dim mwy - ond fe ddarllenodd ei nain erthygl yn y *Readers Digest* am law-driniaeth arbennig oedd ar gael yn Efrog Newydd a sefydlodd Gronfa Apêl Amanda; casglwyd digon o arian i anfon Amanda i Efrog Newydd ble y cafodd law-driniaeth a achubodd ei bywyd. Er hynny, y mae ganddi anabledd difrifol ar un ochr o'i chorff ac y mae yn ddibynnol ar gadair olwyn i symud o gwmpas.



*Amanda Morris*

Bedair blynedd yn ôl ymunodd â Chlwb Camera Dwyfor a dechreuodd dynnu lluniau o adar. Yr oedd canolbwyntio ar yr adar a meistroli'r camera tynnu ei meddwl oddi wrth ei phoen parhaus.

Yn ffodus, y mae llawer o adar i'w gweld oddi ar y palmentydd o gwmpas Pwllheli - yr harbwr, y Cob, ac fel y soniwyd, y mae'r grëyrfa mewn lle delfrydol ar gyfer rhywun mewn cadair olwyn.

Bydd Amanda yn dilyn hynt a helynt y Crehyrod yn flynyddol ac y mae ganddi luniau gwych ohonynt (fel y gwelwch) ac yr oedd, wrth reswm, yn flin iawn i weld y gwaith wrth y nythfa. Yn ôl Amanda, er gwaethaf y tarfu, llwyddodd **saith pâr** o grëyrod i nythu yn llwyddiannus eleni ac fe fagwyd nifer o gywion fel y mae ei lluniau yn dangos. Diolch byth, nid oedd hyn fawr gwahanol i'r nifer arferol ac felly y mae diwedd hapus i'r stori hon.

**Gareth Jones**
*Pwllheli*



*Dau gyw yn un o'r nythod (Llun: Amanda Morris)*



Tri chynnig i Gymro medden nhw, ac fe lwyddwyd i gynnal y daith i gastell y Bere ar ôl ei gohirio ar y ddau Sadwrn blaenorol oherwydd tywydd anffafriol iawn. Doris gafodd y bai.

Bore digon llwyd oedd hi pan ddaeth rhyw hanner dwsin o aelodau at ei gilydd yn y maes parcio gerllaw Castell y Bere. 'Doedd adar mudol y gwanwyn ddim wedi cyrraedd eto, ac er nad oedd disgwyliadau'r dydd yn obeithiol iawn, cafwyd diwrnod cofiadwy serch hynny.

Cyn dringo am y castell gwelwyd boncath ar grib y mynydd a brain coesgoch yn hedeg ar awelon y llethrau. Wrth ddringo trwy'r coedydd at y castell, roedd y mân adar, megis titŵod, ji-binciaid a llwydiaid y gwrych yn niferus.

Profiad newydd i ambell un o'r aelodau oedd ymweld â'r castell pwysig yma yn hanes tywysogion Cymru. Castell a adeiladwyd gan Lywelyn Fawr yn 1221, pan gymerodd feddiant o gantrefi Meirionnydd ac Ardudwy, oddi wrth ei fab



Gruffydd. Ychwanegwyd at adeiladwaith y castell yn ddiweddarach gan ein Llyw Olaf ac wedyn gan Edward 1af. Tybed a oedd cyndeidiau'r adar a welsom ni yn canu yno, yno y pryd hwnnw pan oedd tonnau'r môr yn cyrraedd y graig lle safai'r castell?



*Barcud*

Tamaid o ginio, ac yna ymlaen at eglwys Llanfihangel y Pennant a'i bedyddfaen yr honnir iddi fod ar un amser yng nghapel y castell. Dyma'r eglwys lle'r addolai teulu yr enwog Mary Jones a gerddodd yn droednoeth i'r Bala i brynu Beibl. O'r eglwys, dyma gerdded hanner milltir ymhellach at gartref Mary Jones yn Nhy'n Ddôl, yn y gobaith y byddem yn gweld aderyn neu ddau eto.



Chawsom ni mo'n siomi wrth weld barcud, siglen fraith, robin goch ac olion nythod gwenoliaid islaw bondo y ffermdy gerllaw. Roedd y daith hyd yma wedi bod yn un hanesyddol yn hytrach nag yn un adaryddol, ond roedd gobaith bellach y byddai'r adar yn ymddangos wrth i ni ymweld â Chraig y Deryn.

Ers cyn co' mae'r bilidowcar wedi bod yn nythu ar Graig y Deryn. Dim un yno heddiw ar wahân i un â chynffon wen. Eto roedd yno frain coesgoch, brain tyddyn, jac-doau a gwylanod. Hedfanodd grëyr glas i bysgota mewn ffos islaw'r graig, a do, cafwyd sioe gwerth ei gweld, hebogiaid tramor yn paru.

I orffen y daith bwriadwyd ymweld â cheg afon Dysynni, ond, a ninnau bythefnos yn hwyrach nag y bwriadwyd cynnal y daith, roedd y llanw dros ein llwybr at yr aber. Y tro nesaf efallai.



*Siglen fraith*

**Huw Dafydd**
*Dyffryn Ardudwy*
*(Lluniau: Huw Dafydd a Gareth)*



*(Llun: CA Rasmussen – Wicipedia)*

Ddechrau mis Chwefror, mi es i wylio drudwy'n mynd i glwydo yn un o gorsydd Eifionydd.

Fe ddechreuon nhw gyrraedd mewn heidiau o rai cannoedd, ac ar ôl hedfan am sbel yn eu grwpiau eu hunain, dyma nhw'n ymuno â'r haid gyntaf a ffurfio un swigen symudol fawr. Ar yr un pryd, roedd yna heidiau o rai miloedd yn llifo i mewn o Ben Llŷn, o ogledd Meirionnydd ac o Eifionydd ei hun, a maint pob haid yn cynyddu nes bod yna oddeutu 40,000 o adar yn yr awyr, yn ôl fy mras amcan i.

A dyma'r dawnsio'n dechrau. Roedden nhw fel tonnau'n rholio ymlaen ac yn ôl, ymlaen eto ac wedyn yn ôl. Ton ar ôl ton ar ôl ton... Wedyn, dyma nhw'n trawsnewid yn forgi mawr araf ac wedyn yn belen anferth ac wedyn yn rhuban fain hir. Ailffurfio'n donnau eto a gostwng yn is ac yn is at y gors, ond ar yr eiliad olaf, codi fel un gŵr a phob troad annisgwyl yn mynd â'ch gwynt chi.

Roedden nhw yn eu helfen. Doedd yna yr un hebog na chudyll ar eu cyfyl, a doedd dim yn torri ar dawelwch y min nos, ac eithrio hisian miloedd ar filoedd o adenydd yn curo'n berffaith bob tro yr oedd y drudwy'n penderfynu newid cyfeiriad.

Daeth y ddawns i ben yn rhy fuan o lawer. Ugain munud ar y gorau, ac roedd trydar y drudwy, yn y gors a'u llyncodd nhw, yn atseinio dros y lle.

Mae yna gofnod ar ffilm a fideo o bum miliwn o ddrudwy'n dawnsio uwchben Rhufain yn ystod misoedd y gaeaf, ac yn nes at adref, os teithiwch chi i dde'r Alban, mi allwch weld oddeutu miliwn a chwarter o ddrudwy yn rhoi yr un math o sioe yng nghyffiniau pentref adnabyddus Gretna.

Beth ydi'r rheswm dros yr ymddygiad? Yn gyntaf, mae yna ddiogelwch mewn niferoedd mawr. Hefyd, mae'r symud chwim a'r newid cyfeiriad chwim yn creu dryswch i adar ysglyfaethus ac yn ei gwneud hi bron yn amhosib iddyn nhw dargedu drudwy unigol. Ac yn olaf, wrth glwydo'n glòs at ei gilydd, mae'r drudwy'n elwa o wres corff y naill a'r llall, ac yn cadw'n gynnes waeth pa mor oer fydd hi dros nos.

Gwnaed llawer iawn o ymchwil i geisio deall sut y gall miloedd ar filoedd o adar gwblhau symudiadau mor gymhleth a chyflym heb iddyn nhw daro'n erbyn ei gilydd. Drwy ddefnyddio camerâu a chyfrifiaduron, mae gwyddonwyr erbyn hyn yn credu y gellir egluro'r 'dawnsfeydd' yn nhermau egwyddorion ffiseg. Maen nhw o'r farn bod y cymylau o ddrudwy welwn ni yn debyg i systemau gwyddonol eraill yn y byd o'n cwmpas - fel y ffordd y mae grisialau'n ffurfio, y ffordd y mae afalansau'n digwydd, y ffordd y mae metelau'n cael eu magneteiddio, a'r ffordd y mae hylifau yn troi'n nwyon. Mae'r systemau hyn i gyd ar ffin neu ymyl, yn barod i drawsnewid unrhyw ennyd. Ac yn union fel yr elfennau unigol sydd yn y systemau, mae pob drudwen wedi'i chysylltu â'r holl ddrudwy eraill sydd yn yr haid, ac yn rhan o un rhwydwaith.

Felly, o dan arweiniad y ffisegydd Giorgio Parisi o Brifysgol Rhufain, aeth tîm o wyddonwyr ati i astudio dawnsfeydd y drudwy yn llawer manylach, a chyhoeddwyd ffrwyth eu hymchwil yn Nhrafodion Academi Genedlaethol y Gwyddorau yn 2010. Gan ganolbwyntio, yng ngham cynta'r prosiect, ar y cyflymder hedfan, sylwodd y tîm fod unrhyw newid yng nghyflymder un aderyn yn effeithio ar gyflymder yr holl adar eraill, beth bynnag oedd maint yr haid. Cydberthynas sy'n annibynnol ar faint neu raddfa ydi'r egwyddor ar waith, ac mae'n golygu bod maes canfyddiad pob aderyn sydd mewn haid fawr o adar yn llawer ehangach na phe bai pob aderyn yn rhyngweithio â'r aderyn agosaf ato yn unig.

Wrth fynd â'r ymchwil gam ymhellach yn 2012 a chanolbwyntio ar synnwyr cyfeiriad y drudwy, darganfu'r ymchwilwyr mai dim ond ar gyfeiriad hedfan y saith aderyn agosaf yr oedd unrhyw newid yng nghyfeiriad hedfan aderyn unigol yn effeithio. Mewn gair, roedd symudiadau un ddrudwen yn effeithio ar symudiadau saith o'r drudwy agosaf ati, ac roedd symudiadau pob un o'r saith hynny yn effeithio ar symudiadau saith drudwen ychwanegol, ac ymlaen felly drwy'r haid gyfan. Yn ôl yr ymchwilwyr, mae rhywbeth tebyg iawn yn digwydd pan fydd metelau'n cael eu magneteiddio, a sbin yr electronau sydd o fewn gronynnau yn alinio â sbin yr electronau sydd o fewn gronynnau cyfagos.

Ond gall y sôn am ddrudwy'n dawnsio 'wrth y miloedd a'r miliynau' roi darlun camarweiniol i ni gan fod niferoedd ein drudwy cynhenid wedi gostwng yn ddifrifol. Drudwy wedi mudo yma o ddwyrain Ewrop ydi mwyafrif llethol y rhai a welwn ni yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Yn ôl y Gymdeithas Gwarchod Adar, cafwyd

cymaint ag 80% o ostyngiad yn niferoedd ein drudwy cynhenid dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae’r adar unigryw hyn bellach ar restr y rhai sydd yn y mwyaf o berygl o ddiflannu o’r tir. Llai o dir pori, y defnydd cynyddol o gemegion amaethyddol, a phrinder llefydd i nythu ydi’r rhesymau tebygol dros y gostyngiad.

A dyna rybudd clir arall bod gofyn i ni fod yn llawer mwy caredig wrth yr amgylchedd a newid ein ffordd o fyw yn sylweddol os ydan ni am warchod ac atgyfnerthu’r etifeddiaeth ryfeddol a drosglwyddwyd i ni.

**Ieuan Bryn**
*Penrhyndeudraeth*

## Drudwns? Hy!

Ddechrau Chwefror eleni oedd hi a minnau’n dod a chriw o bobl ar gwrs adar y gaeaf adra i Blas Tan y Bwlch o lannau’r Fenai. Roedd yn dechrau tywyllu pan gefais syniad yn fy mhen i fynd i weld yr heidiau mawr o ddrudwy (drudwns) sy’n dod i glwydo yng nghors Stumllyn yr amser yma o’r dydd.

I lawr a ni ar hyd y ffordd bach gul o Bentrefelin at Eglwys Ysyscynhaearn i barcio ar gyfer y sioe. Pwy oedd yno o’n blaen ond Elfyn a Ieuan Bryn; roeddent wedi parcio ar y graean o flaen porth yr Eglwys a dyma finnau felly yn parcio wrth eu hochr... ond ar y borfa. Dod i ddeall ganddynt nad oedd llawer o sioe heno a bod y drudwns wedi glanio eisoes yn heidiau bychain yn hytrach na’r un haid fawr arferol sy’n creu’r patrymau anhygoel yn yr awyr cyn glanio. Roeddent hefyd wedi cael row gan y ffermwr am dresbasu!

’Doedd dim i’w wneud felly ond ei throi am adra – mi fyddai’n amser cinio nos cyn bo hir ac roeddem yn disgwyl Alwyn Evans i roi sgwrs inni am weilch y Ddyfi. Aeth Elfyn a Ieu oddi yno yn ddi-drafferth, ond och a gwae, nid ni! Mi ddechreuodd olwynion y bws droi yn eu hunfan ac er gwaetha pob ymdrech mi aethom yn hollol sownd! Roedd y ddaear yn dal yn feddal wedi’r holl law fu’n ddiweddar.

Wel be oedd i’w wneud rwan? Dyma ffonio’r Plas a chael cerbyd 7-sedd i’n nol mewn dwy siwrnai a gadael y bws yn ei rychau mwdlyd dros nos. O leia fe gawsom ein bwyd a darlith Alwyn.

Yn gynnar fore drannoeth roeddwn yng ngweithdy Wardeiniaid y Parc yn Penrhyn ac fe ddaeth un o’u cerbydau 4x4 i achub y bws. Pwy ddaeth hefyd ond y ffarmwr ac fe gefais innau gythraul o row am fynd yn sownd. Fe gyfaddefodd nad oeddwn ar ei dir o, am mai’r Cyngor Sir oedd piau’r darn tir o flaen yr Eglwys. (Yma y byddai’r hers yn parcio.) Ond row a gafwyd. Achubwyd y bws ac roeddwn yn ôl yn y Plas ddim ond chwarter awr yn hwyr ar gyfer taith y dydd.

Cyngor felly? Parciwch ar y graean a chadwch at y llwybr cyhoeddus!

**Twm Elias**

## Y RUGIAR WEN



*Grugiar yr Alban (Llun: Anet Thomas)*

Mynyddoedd trawiadol ardal Torridon ddenodd aelodau Clwb Mynydda Cymru i Ogledd yr Alban, ac am wythnos sych a braf wnaeth y rheiny ddim siomi. Pleser ychwanegol oedd nifer yr adar y daethom ar eu traws. Un o'r uchafbwyntiau oedd grugiar yr Alban, aderyn nad yw i'w weld ond ar y llechweddau yn y gogledd pell. Daethom ar ei draws sawl tro, yn rhyfeddol o ddof ac yn ddigon parod i dynnu sylw ato ei hun gyda'i alwad cras. Yn ystod y gaeaf mae'r plu yn wyn heblaw am y cynffon du, fel cuddliw yn yr eira, ond erbyn y gwanwyn a'r haf mae'r cefn a'r fron wedi tywyllu (fel yn y llun uchod).

Roedd y cogau'n niferus iawn yn yr ardal ac fe'u clywsom bob diwrnod, ar y copaon ac yn y cymoedd. Er bod y rhan fwyaf ohonom wrth ein bodd yn ei chlywed doedd y rhai oedd yn gwersylla ddim yn rhy hapus o gael eu byddaru ganddi am bedwar o'r gloch bob bore! Ymhlith yr adar eraill a welwyd roedd eryrod môr, eryr aur, mwyalch y mynydd, ac ar fynyddoedd llai creigiog ymhellach i'r dwyrain, hutanod.



*Hutan y mynydd (Llun: Elen Huws)*

**Anet Thomas**
*Llanengan*



Wel am ddiwrnod bendigedig. Heulog braf drwy'r dydd, dim chwa o wynt, ac adar? Waaaw!

Criw da o ryw 15 yn cyfarfod ym maes parcio Dinas Dinlle. Dim yn anarferol i'w weld ar y môr, mae'n siwr bod y trochyddion ymhell allan heddiw, ond haid o ddwsin chwaden lydanbig a'u pennau yn eu plu yn agos i'r lan. Draw i gyfeiriad y maes awyr roedd cymylau o ddrudwennod a hefyd cwtiaid aur yn yr awyr. Roedd yn argoeli'n dda.



*Cwtiaid aur*

Dan arweiniad Nicola Bee-Jones o Nantlle, aelod diweddara'r Gymdeithas, dyma Iwytho i'r ceir ac ar hyd y ffordd at y corsydd. Wel dyma olygfa – heidiau enfawr o gornchwiglod (6-800?), glyfinirod (4-500?) a chwiwellod (6-800?) a'r golau yn berffaith i ddangos eu lliwiau. Roedd bron yn amhosib cael cyfri call oherwydd bod rhannau o'r heidiau yn y caeau nesa ac yn cael eu cuddio gan y cloddiau. Andros o job i pwy bynnag fuasai'n cynnal y cyfri WeBS misol! Ryw chydig o gynnwrf nawr ac yn y man a rhai o'r heidiau yn codi, ond yn glanio bron yn syth. Tybed beth oedd yr achos? Draw yn y pellter roedd bwncath ar ei adain a chafwyd cip ar iâr boda tinwen hefyd.



*Cornchwiglen*

Roedd ffordd drol yn mynd drwy ganol y gors ac wrth ei hymyl gwelwyd tri gïach yn y ffosydd, crëyr glas a charlwm yn rhedeg i mewn ac allan o'r brwgaitsh.

Yr RSPB, ryw ddeng mlynedd yn ôl a gyda chydweithrediad Stad Niwboro, ddatblygodd y safle i greu'r hyn sydd yno heddiw – crafu pyllau, ffensio rhag llwynogod a chreu cynefin perffaith i gornchwiglod nythu. Cafwyd

llwyddiant rhyfeddol ac mae nifer dda iawn o barau yn nythu yma bob blwyddyn bellach. Pan ddaeth cytundeb tair mlynedd yr RSPB i ben trosglwyddwyd rheolaeth y safle i ddwylo Cyfoeth Naturiol Cymru.



*Crëyr bach*

Sylwi bod y cwtiaid aur ddau gae oddi wrthym i gyfeiriad y maes awyr, felly i ffwrdd a ni. Roedd y golau yn berffaith i ddangos eu lliwiau – gwych! Roedd tua 1,000-1,200 ohonyn nhw a haid o rai dwsinau o ddrudwennod ar y gwifrau trydan y tu draw. Welsom ni ddim llawer o ddrudw wedyn – mae’n debyg eu bod wedi gwasgaru’n grwpiau llai i’r tiroedd amaethyddol o gwmpas.

Panad a chinio cynnar yng nghaffi’r maes awyr a Nicola wedyn yn ein harwain ar hyd llwybrau ar draws y morfa at aber afon Gwyrfai. Roedd cynefinoedd gwych yma i fywyd gwyllt, yn glytwaith o dir brwynog a gwelltir oedd yn cael ei bori’n weddol ysgafn. Tir tywodlyd corsiog nad oedd yn addas iawn i’w ffermio’n ddwys oedd yma. Am nad oedd chwa o wynt roedd yr haul yn gynnes iawn ar ein wynebau a hynny er gwaetha’r rhew oedd ar rai o’r pyllau ar ôl oerni’r noson cynt. Saith gŵydd wyllt *(greylag)* yn hedfan fel pen saeth uwch ein pennau.

Dyma gyrraedd y cob oedd yn cadw’r llanw o’r morfa a dilyn y llwybr i fyny’r afon am ychydig i chwilio am las y dorlan. Dim un heddiw ond clochdar cerrig ar y llwyni gerllaw. Troi am yr aber a’r Foryd. Dau grëyr gwyn yn yr afon a golygfa fendigedig dros y morfa heli o’r llwybr ar hyd pen y cob – gweiriau heli euraidd hyd y gwela’ chi. Coesgochiaid yn y sianeli; ambell i chwiwell a gylfinir; cor-hedyddion yn hedfan dros ein pennau; dau ehedydd ar lawr y gors tu cefn inni a heidiau bychan o ddrudwennod cyn inni gyrraedd yn ôl i’r caffi. Cafodd y rhai aeth a’u paned allan olygfa dda o hofrennydd mawr coch a gwyn y gwasanaeth achub yn refio’i injan wrth ymyl, ond roedd yn anodd cael sgwrs ynghanol yr holl sŵn ac roedd y propelor yn codi awel oer. I mewn a ni at y lleill cyn ffarwelio. Diwrnod bythgofiadwy.



*Pibydd coesgoch*

**Twm Elias**

*(Lluniau: Huw Dafydd a Gareth)*

## TAITH Y LÔN GOED AC AFONWEN, EBRILL 8, 2017



*Siff siaff*

*Wele'n cychwyn dri-ar-ddeg*
*Yn Afonwen ar fore teg…*

Ac mi oedd hi'n fore a diwrnod eithriadol o deg a braf hefyd. Diwrnod brafia'r flwyddyn hyd yn hyn, yn heulog, di-wynt a chynes o ystyried mai dechra' Ebrill oedd hi. Cyfarfod ger y cylchrdo yn Afonwen a da oedd medru croesawu Gwilym Tudur oedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Ted yn 2003 ac yn frodor o Chwilog gerllaw er mai yn Aberystwyth y bu am y rhan fwyaf o'i yrfa, yn rhedeg Siop y Pethe. Roedd ei ferch Non hefo ni hefyd a'r wyres fach Ethni Mair, 17 mis. Nid Ethni oedd y 'fenga chwaith, ond Meg, ci bach newydd pedwar mis oed Gareth a Gwennan!

Dyma groesi'r ffordd at hen olchdy Afonwen, sy'n adfail bellach, lle byddid yn golchi dillad gwlâu gwersyll Butlins ar un adeg cyn i'r sefydliad rhyfeddol hwnnw droi yn safle garafanau enfawr Hafan y Môr.

Ger y golchdy mae'r Lôn Goed enwog yn cychwyn. Adeiladwyd hon gan asiant ystâd, Mr Maughan, bron i 200 mlynedd yn ôl i gario calch o draeth Afonwen ar draws y corsydd i wella'r tiroedd ar lethrau Mynydd Cennin sydd ryw 4½ milltir i ffwrdd. Chwarae teg i Maughan, fe blannodd ddwy res o goed o bopty ei ffordd newydd, sydd bellach yn goed aeddfed bendigedig ar ei hyd gyda'u canghennau'n cyffwrdd uwch eich pennau am ran helaeth o'r daith.

Fel y dywed R Williams Parry:

*A llonydd gorffenedig*
*Yw llonydd y Lôn Goed,*
*O fwa'i tho plethedig*
*I'w glaslawr dan fy nhroed.*
*I lan na thref nid arwain ddim*
*Ond hynny nid yw ofid im.*

Gellir disgrifio'r Lôn Goed fel coedwig hir a chul fel llinyn sy'n le gwych i adarydda. Yma medrwn ddisgwyl gweld ein hadar y coed arferol i gyd ynghyd ag adar y meysydd a'r corsydd wrth edrych i'r naill ochr.

Roedd ardal Y Lôn Goed yn enwog am ei beirdd ryw ganrif a mwy yn ôl, ac fel



y dywedodd un ohonynt:

> *Maughan am goed,*
> *minnau am gân.*

Ond adar a bywyd gwyllt y gwanwyn oedd ein diddordeb ni heddiw - a chawsom ni mo'n siomi.

Wrth gychwyn, roedd blodau megis botwm crys, cwlwm yr asgwrn a briallu yn eu bri, drain duon yn eu blodau a drain gwynion yn dechrau deilio. Ambell iâr fach yr haf hefyd; rhai gwynion a rhai blaen oren. Roedd rhai o'r adar wrthi o ddifri: siani lwyd, telor penddu, robin a thitw mawr gyda'i *"ti-tw, ti-tw*" – dyna sut cafodd hwnnw ei enw. Aros am sgwrs efo gŵr Bodawen a chael golwg dda yr un pryd ar ddringwr bach, delor cnau, titw cynffon hir, titw tomos a thelor penddu arall yn morio canu.

Ymlaen a ni... Wyth gŵydd Canada yn hedfan uwchben, brân dyddyn ar ei nyth yn y pellter a branas o ydfrain neu frain pigwen yn y coed uwch ein pennau yn crawcian yn dawel. Mae 'na rywbeth cartrefol a digynnwrf yng nghrawc yr hen bigwen yn fy marn i.

Croesi'r ffordd fawr sydd yn arwain at Chwilog ac ymlaen a ni am sbel. Doedden ni ddim am gerdded y 4½ milltir cyfan i odrau Mynydd Cennin am fod aber afon Dwyfor a thraeth Afonwen yn galw. Ond cyn troi'n ôl roedd robin, delor y cnau yn chwibiannu'n fygythiol arnom ni ac un arall ganllath ymlaen. Roedd siff-siaff yn siff-siaffio, gwialchen, tresglen yn y cae a chriw o fustych coch tywyll bendigedig yn syllu arnom, yn rhedeg, a dod yn ôl i syllu eto. Gwartheg Salers yw y rhain, brïd gyflwynwyd yn lled ddiweddar o ganolbarth Ffrainc ac sy'n prysur ddod yn boblogaidd am eu bod yn cynhyrchu'n dda, yn ddi-drafferth iawn a hawdd eu trin.

Yn ôl a ni at y ceir a symud ryw ddwy filltir at Pont Fechan, sy' ryw lai na milltir cyn cyrraedd Llanystumdwy. Parcio yno a b'yta'n brechdanau ar y bont. Ew mi oedd hi'n braf yno yn sŵn yr afon â lliwiau'r gwanwyn yn llachar yn eu newydd-deb! Mi ddaeth clochdar cerrig ar y ffens gerllaw i'n dwrdio a thelor penddu arall i ganu ei hawliau tiriogaethol.



Dilyn y llwybr drwy'r coed ar lan yr afon tua'r aber. Roedd y blodau yn anhygoel - carped tew o graf y geifr, ddim cweit yn ei flodau eto, dan y coed a

chlytiau o lygad Ebrill, blodau'r gwynt a melyn y gors lle'r oedd y tir 'chydig yn gorsiog. Blodau melyn y cywion gwyddau yn drwch hyd y coed helyg a'r drain duon yn flodau gwynion drostynt. '*Pan fo'r ddraenen ddu yn wen…*' yn arwydd ei bod yn amser hau ceirch yn yr hen ddyddiau.

Croesi'r rheilffordd i'r morfa, a'r cynefin yn newid yn syth. Clytiau o wair tal a moresg yn gymysg â phorfa fer gaiff ei chadw i lawr gan wningod. Ehedydd yn codi a chanu. Cyrraedd y traeth. Roedd yn ben trai a'r môr ymhell allan ac yn llonydd fel llyn llefrith. Chydig o adar y môr oedd i'w gweld – bilidowcar ac ambell wylan ond roedd ein bryd ni ar rywbeth arall. Troedio'r graean tua'r gorllewin lle mae clogwyn pridd uchel yng Nglanllynnau lle ceir nythfa fawr o wenoliaid y glennydd neu wenoliaid bach.

Ar ein ffordd dyma sylwi ar ryw hanner dwsin o siglennod ym mysg cerrig y traeth. Wel dyma dda, nid ein siglen fraith neu sigl-di-gwt arferol ni (*Motacilla alba yarrellii*) gyda'i chefn du oedd y rhain ond y siglen wen gyfandirol (M.a.alba) gyda'i chefn llwyd. Bydd heidiau o'r rhain yn ymfudo ar hyd y glannau, yn enwedig tua diwedd Ebrill – mae Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yn lefydd da i'w gweld bryd hynny.

Roedd rhai ugeiniau o'r wenoliaid bach ar ffens uwchben y clogwyn ac ugeiniau eraill yng nghegau eu tyllau nythu ar y clogwyn a llawer mwy ar eu hadain. Bob hyn a hyn roedd y cwbl yn codi i'r awyr a chwyrlïo uwch y traeth a dod reit uwch ein pennau cyn dychwelyd at y clogwyn. Buom yno, heb fynd yn rhy agos i darfu ar yr adar, am tua hanner awr yn



*Gwenoliaid y glennydd*



mwynhau'r olygfa tra bod Gareth a Huw yn tynnu lluniau gyda'u lensys hir.



*Siglen wen*

Yn ein holau at y morfa a sylwi ar nythfa o wenyn unig, ryw ddwsin ohonyn nhw, pob un a'i dwll nythu ei hun yn nhywod torlan y traeth. Mae rhain yn weddol brin ac yn dangos gwedd gyntefig yn esblygiad y nythfeydd cymdeithasol mawr a welwn yn fwy cyffredin. Hynny yw, yma roedd nifer o unigolion yn clystyru er mwyn diogelwch, ond yn nythu ar wahân. Y cam nesa fyddai rhannu yr un twll a'r cam nesa wedyn fyddai troi'n nythfa fawr dan reolaeth 'brenhines'.

Ymlaen a ni gan ddilyn yr afon Dwyfor am ryw hanner milltir i'w haber gan sylwi ar nifer o hedyddion yn reit agos atom ni ar y ddaear ac eraill yn yr awyr. Clochdar cerrig arall a chorhedyddion y waun, dau alarch a cheiliogod chwiaid gwylltion ar yr afon (yr ieir ar nythod mae'n debyg). Yn y pendraw, lle mae'r afon yn arllwys rhwng y cerrig i'r môr, haid arall o ryw 18 o siglennod gwyn a chriw da o wenoliaid bach yn nythu ar y dorlan yr ochr arall i'r afon uwchlaw'r traeth yn Ynysgain Fawr.



*Ehedydd*

Wrth droi'n ôl, crëyr gwyn yn hedfan i fyny'r afon.

Diwrnod gwych, bythgofiadwy, a diweddu yng nghaffi Cadwaladr yng Nghricieth am baned neu hufen iâr, ac ambell un barus yn cael cacen go fawr.

**Twm Elias**

*(Lluniau: Huw Dafydd a Gareth)*

**Drudwy**

Yr heidiau mwyaf o ddrudwy gofnodwyd yn gaeafu yn hen Sir Gaernarfon yw: **100,000** yn Llanllechid, Mawrth 2000; 40,000 yng Nghors Stumllyn, Tachwedd 1999 a **15,000** ym Mhwllheli, Tachwedd 2015. *(Birds of Caernarfonshire, 2017)*

## TAITH CWM NANTCOL, MAI 13, 2017



Aeth sawl blwyddyn heibio ers i'r Gymdeithas drefnu taith i Gwm Nantcol. Ar fore Sadwrn, Mai 13, a hithau'n fore digon llwyd, cyfarfu deg o aelodau wrth hen ysgol/neuadd y Cwm. Dan arweiniad Rhodri Dafydd, Uwch Reolwr Gwarchodfeydd Morfa Harlech a Morfa Dyffryn, y gobaith oedd cael gweld rhai o adar mudol yr haf.

Cyn cychwyn o'r maes parcio, roedd un o'r ymwelwyr hynny wedi amlygu ei hun. Yno yn canu ar frig coeden gyfagos roedd tingoch. Cychwynnwyd y daith i lawr y llwybr heibio'r ysgol ac ymlaen at Glan Rhaeadr. Cyn cyrraedd yr adeiladau ger y rhaeadr gwelwyd llu o'r mân adar, yn eu mysg, aderyn du, robin goch, ji-binc, nico, corhedydd y waun, tinwen y garn, dryw bach, titw tomos las, brân dyddyn a chigfran. Tylluan frech ddaeth allan o un o ysguboriau Glan Rhaeadr, ond yn anffodus ni welwyd hon gan bawb. Gwelodd pawb, fodd bynnag, y gwybedog brith a chlywed y gog yn canu.

Wrth ddilyn y llwybr o Lan Rhaeadr, syndod oedd gweld carthion dyfrgi ar lan





ffos fechan. Dyma anifail sydd bellach yn ail sefydlu yn yr ardal. Canai'r gog eto ac fe'i gwelwyd yn hedfan i goeden draenen wen. Llwyddwyd i gael llun ohoni er ei phellter oddi wrthym.

Ymlaen wedyn drwy'r gors ac ar draws y caeau islaw Cilcychwyn. Oddi yma roedd y geifr gwylltion i'w gweld ymysg glesni bwtsias y gog ar y llethrau gyferbyn. Roedd tipyn o li yn afon Nantcol ac felly ni fyddai gobaith gweld bronwen y dŵr er fod siglen fraith wedi ymddangos. Uwch ein pennau gwelwyd llu o wenoliaid ac ambell i foncath.

Croesi'r afon ar y bont gerrig sy'n cario'r ffordd at Faes y Garnedd, a throi i'r chwith gan ddilyn y llwybr at Ddol dal Owain. Y tro olaf i'r Gymdeithas lwybro'r ffordd hon fe glywyd ac fe welwyd mwyeilch y mynydd ar y llethrau islaw'r gweithfeydd mango, ond nid y tro hwn. Cafwyd tamaid o ginio ar y creigiau cyn cyrraedd Dol dal Owain, a'r geifr yn cadw llygad arnom.



Gwlyb iawn oedd y llwybr tuag at Bwll March a chan fod y pontydd troed dan ddŵr bu'n rhaid cwtogi ar y daith a dychwelyd at yr ysgol. Ar y ffordd yn ôl i'r maes parcio roedd cân y telorion ar bob tu. Telor yr helyg, telor yr hesg, y troellwr bach, a'r telor penddu. Gwelwyd hefyd grec yr eithin, bras y cyrs a llinosiaid. Crëyr glas a'r 'sguthan ddaeth â'r cyfri i ryw ddau ddwsin o wahanol fathau o adar ar y daith hon. Cafwyd diwrnod diddorol ac addysgiadol. Diolch i Rhodri am ei arweiniad.



*Un o drigolion y cwm*

**Huw Dafydd**
*Dyffryn Ardudwy*
*(Lluniau: Huw Dafydd a Gareth)*

# Y NICO



Cyfeiria'r enwau Eurbinc, Sowldiwr bach y Werddon, Cnot, Pobliw, Teiliwr Llundain, Peneuryn, Y Nicol, Jac Nico a Gwas y Seiri at un o'r adar harddaf a welir ym Mhrydain.

Cyn dyfodiad y caneri a'r byjerigar, cedwid rhai miloedd ohonynt mewn cewyll yn nhyddynnod Cymru. Daliwyd cymaint fel bo perygl i'r nico ddiflannu o'n gwlad, ac roedd yn aderyn prin pan sylweddolwyd y perygl. Lluniwyd deddf arbennig i roi terfyn ar yr hen arfer o'i ddal mewn maglau a rhwydi ac erbyn heddiw mae'n ddigon cyffredin yng Nghymru. Cyfaddefai un heliwr iddo ddal a gwerthu dros 3,000 o adar nico yn ystod un flwyddyn!

Nid rhyfedd bod ein cyn-dadau mor hoff o gadw nico mewn cawell pan gofiwn am y coch hardd ar ei dalcen a'i wddf, y bochau gwynion, a'r du ar y corun a thu ôl i'r bochau ond rhinwedd enwocaf y nico yw ei gân swynol ac yn yr amser a fu, cedwid ceiliog nico i ddysgu caneri ieuanc i ganu!

Er bod nyth nico mewn gardd neu berllan yn ddigon cyffredin, bernir mai aderyn pur ofnus ydyw. Ni fydd yn ymyrryd llawer â'r ffrwythau nac â chnydau, gwell ganddo wledda ar hadau'r chwyn.

Un o ddanteithion pennaf y nico yw hadau ysgall, ac un o'r golygfeydd pertaf i mi yn yr hydref yw gwylio haid yn disgyn ar lwyn o ysgall aeddfed. Darniant y pennau i gyrraedd yr had, a dim ond ffilm lliw fedrai roi gwir ddarlun inni ohonynt yn hongian ar y chwyn mewn cwmwl o fanblu'r ysgall.

Un o'i arferion, sy'n poeni tynnwr lluniau, yw gosod y nyth allan o'i gyrraedd ar flaen cangen uchel mewn perllan neu lwyn. Dro arall dewisa'r nico lecyn nythu mewn gwrych cysgodol neu goeden fytholwyrdd. Gwneir y nyth daclus o wreiddiau, gwellt, mwsogl a chen cerrig a rhoir ynddo leinin meddal o wlân. Rhyw 5 neu 6 ŵy a welir ynddi, rhai glas golau gydag ychydig smotiau browngoch.

Nytha'r nico ym misoedd Mai a Mehefin, ac yn aml megir dwy neu dair nythaid mewn tymor. Cefais y nico i fagu cywion droeon mewn tŷ adar, ac felly gyfle i sylwi ar ei arferion. Yr iâr fyddai'n codi'r nyth ac yn gori'r wyau am 12 i 13 o ddiwrnodau, ond byddai'r ceiliog yn ei chynorthwyo i fwydo'r cywion am y pythefnos a dreulient yn y nyth.

Yn yr Hydref, ymfuda heidiau mawrion i'n gwlad, a chrwydrant y wlad yn chwilota am hadau chwyn a phan ddaw y gwanwyn, dychwelant i'r cyfandir.

**EV Breeze Jones**
*Yr Adar Mân* 1967

## RHAGLEN AWST-RHAGFYR 2018

Mae'n bwysig iawn eich bod yn edrych ar ein gwefan yn rheolaidd er mwyn cael y manylion diweddaraf am beth fydd yn digwydd. Yn well byth, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i ni ac fe gewch neges amserol am bob digwyddiad (cyswllt pwllheli@gmail.com ).

**Awst 8:**
Dydd **Mawrth**: Cyfarfod ym **Mhabell y Cymdeithasau** yn yr Eisteddfod Genedlaethol am **1:30**.

**Medi 16:**
**Taith** yn ardal **Trawsfynydd**.
Cyfarfod ym maes parcio Caffi Prysor (ar lan y llyn, ger yr atomfa) LL41 4DT SH 696 384.

**Hydref 7:**
**Taith** yn ardal **Uwchmynydd** dan arweiniad **Rhys Jones.**
Cyfarfod ym maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar Ben y Cil LL53 8BY SH 142 256.

**Hydref 21:**
**Y Gynhadledd Flynyddol** ym Mhlas Tan y Bwlch.

**Tachwedd 18:**
**Taith** yn ardal **Llandudno / Conwy**
Cyfarfod ym maes parcio RSPB Conwy LL31 9XZ SH 794 774 .

**Rhagfyr 6:**
Nos **Fercher**: Mins peis a sgwrs - Plas Tan y Blwch.

**Rhagfyr 16:**
**Taith** flynyddol yn ardal **Porthmadog.**
Cyfarfod ger Recordiau'r Cob LL49 9NA .

**Ionawr 13:**
Taith yn ardal yr **afon Dwyryd**
Cyfarfod ym maes parcio Minffordd (trofa Portmeirion)
LL48 6HG SH 596 384.

**Teithiau yn cychwyn am 10.30yb (oni nodir yn wahanol) a'r sgyrsiau am 7.30yh.**

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**